

Rhif: WG25350



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Gwaredu Daearegol o Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Gweithredu

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 18 Awst 2015

## Trosolwg

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) yn ddaearegol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond ar sail partneriaeth wirfoddol â chymuned neu gymunedau sy'n barod i ddechrau trafod y posibilrwydd o gynnis lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol ac os caiff y trafodaethau hynny eu cwblhau'n llwyddiannus y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru; proses a all gymryd dros ddegawd.

Wrth fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau rheoli amgen ar gyfer GUA ac wedi dod i'r casgliad mai dim ond gwaredu daearegol a all gynnis llwybr gwaredu ar gyfer y stocrestr gyfan o wastraff i'w waredu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y prosesau y gellid eu defnyddio i leoli CGD yng Nghymru a darparu gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnis lleoliad a allai fod yn awyddus i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad, ynghylch cynnis lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol.

## Sut i ymateb

Rhowch destun i esbonio sut mae ymateb i'r ymgynghoriad, e.e. drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen, drwy fynychu digwyddiad neu drwy lenwi ffurflen ar-lein.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [RPPmailbox@wales.gsi.gov.uk](mailto:RPPmailbox@wales.gsi.gov.uk)

Rhif ffôn: 029 2082 3235

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# CYNNWYS

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel	2
Materion eraill sy'n cyfrannu at y polisi ar gyfer gwaredu daearegol	3
Papur Gwyn Llywodraeth Cymru <i>Implementing Geological Disposal</i> (Gorffennaf 2014)	4
Sut mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro	4
<b>Pennod 1: Datblygu gwaredu daearegol</b>	<b>5</b>
Camau gweithredu cychwynnol	6
<b>Pennod 2: Gweithio gyda chymunedau</b>	<b>11</b>
Gweithio gyda chymunedau yng Nghymru	11
Mesurau a gynigir gan Lywodraeth y DU a sylwadau Llywodraeth Cymru	12
<i>Gweithio gyda Chymunedau</i>	12
Cynrychiolaeth gymunedol	13
Grŵp cynrychiolaeth gymunedol	14
Yr hawl i dynnu'n ôl a phrawf o gefnogaeth y cyhoedd	17
<i>Rhoi gwybodaeth i gymunedau</i>	19
Rhaglen sgrinio daearegol genedlaethol	19
Cael barn arbenigwyr annibynnol	20
Rhoi gwybod am y stocrestr o wastraff i'w waredu	21
<i>Cefnogi cymunedau</i>	23
<b>Pennod 3: Y camau nesaf</b>	<b>27</b>
Polisi Llywodraeth Cymru ar waredu daearegol	27
Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn	28
Cwestiynau	29
Sut i ateb	32

## Cyflwyniad

- i. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad polisi<sup>1</sup> sy'n nodi ei bod wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu<sup>2</sup> gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA)<sup>3</sup>. Mae'r ddogfen polisi hon yn cynnwys y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r polisi hwn.
- ii. Mae'r ddogfen polisi yn pwysleisio nad yw mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol o reidrwydd yn golygu y caiff cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) ar gyfer GUA neu weddillion tanwydd, os datgenir eu bod yn wastraff, ei adeiladu yng Nghymru.
- iii. Mae'r ddogfen polisi yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond ar sail partneriaeth wirfoddol â chymuned neu gymunedau sy'n barod i ddechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD ac os caiff y trafodaethau hynny eu cwblhau'n llwyddiannus y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru; sy'n broses a all gymryd mwy na degawd. Yn ystod y cyfnod hwnnw ni ddisgwylid i gymuned a allai gynnig lleoliad wneud unrhyw benderfyniadau terfynol a gallai dynnu'n ôl unrhyw bryd, a fyddai'n rhoi terfyn ar y broses leoli ar y safle hwnnw. At hynny, byddai Llywodraeth Cymru am gael sicrwydd y gellid datblygu unrhyw leoliad arfaethedig ar gyfer CGD yn ddiogel a chan ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd yn briodol.
- iv. Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen cynnal ymgynghoriad pellach ynghylch y prosesau y gellid eu defnyddio i leoli

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru - Adolygiad o'r Polisi Presennol ar Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd: Ystyried yr Ymatebion

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/chemicalsradioactivity/radioactivity/radioactivewastemanagement/?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> Y dogfen polisi o'r Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol. Mae gwaredu yn wahanol i storio: mae storio yn awgrymu bod angen ymyrryd ymhellach yn y gwaith o reoli'r gwastraff drwy e.e. ailbecynnu neu gludo'r gwastraff er mwyn ei waredu'n derfynol. Pan gaiff gwastraff ei waredu, er y gellir darparu ar gyfer monitro neu ymyrryd ymhellach, ni osodir unrhyw ofyniad ar genedlaethau'r dyfodol i ymyrryd ymhellach â'r gwastraff ar ôl iddo gael ei osod. Yr un ystyr yn cael ei ddefnyddio yn yr ymgynghoriad hwn ag yn y ddogfen bolisi.

<sup>3</sup> Yng nghyd-destun y dogfen polisi o'r Llywodraeth Cymru, defnyddir y term GUA i gwmpasu'r mathau o wastraff ymbelydrol sy'n gyfystyr â GUA (gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolraddol a rhywfaint o wastraff lefel isel), gweddillion tanwydd, os datgenir eu bod yn wastraff a deunyddiau eraill na ddatgenir eu bod yn wastraff ar hyn o bryd ond y gellid datgan eu bod yn wastraff yn y dyfodol, ac mae'n cynnwys GUA a gweddillion tanwydd o orsafoedd ynni niwclear newydd.

CGD yng Nghymru, a llywio'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad. Diben y papur ymgynghori hwn yw ceisio barn ar y materion hyn.

- v. Dylid darllen y papur ymgynghori hwn yng nghyd-destun dogfen polisi Llywodraeth Cymru ynghylch mabwysiadu gwaredu daearegol ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff. Yn benodol, mae'r atodiadau i'r ddogfen polisi yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y canlynol:
- Y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis gwaredu daearegol fel ei pholisi ar gyfer rheoli a gwaredu GUA a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff yn y dyfodol gan gynnwys cyfeiriadau at waith y Pwyllgor annibynnol ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) [Atodiad 2].
  - Dadansoddiad o'r gwastraff ymbelydrol a deunyddiau eraill, gan gynnwys gweddillion tanwydd, a all gael eu dynodi'n wastraff maes o law a'u hystyried, felly, ar gyfer eu gwaredu'n ddaearegol (y stocrestr o wastraff i'w waredu) [Atodiad 1].
  - Mae'r prosesau sy'n gysylltiedig â gwaredu daearegol ac adeiladu CGD yn cynnwys profiadau mewn gwledydd eraill sy'n bwriadu defnyddio gwaredu daearegol i waredu gwastraff ymbelydrol [Atodiad 3].
  - Rhaglen o waith sgrinio daearegol lefel uchel ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn rhoi gwybodaeth i gymunedau a all fod yn ystyried dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. [Atodiad 4]

### **Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel**

- vi. Mae Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon eisoes wedi mabwysiadu gwaredu daearegol<sup>4</sup> ac mae trefniadau yn cael eu datblygu y gellid eu defnyddio ar gyfer gweithredu gwaredu daearegol yn y gwledydd hynny<sup>5</sup> fel rhan o'r rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Bu Llywodraeth Cymru yn rhan o'r rhaglen honno ers iddi gael ei sefydlu yn 2003. O dan raglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel mae Llywodraeth y DU yn arwain ac yn ariannu'r rhaglen gwaredu daearegol.
- vii. dan ei pholisi blaenorol, fel y'i nodir ym Mhapur Gwyn 2008, penderfynodd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd) beidio â

---

<sup>4</sup> Defra, *BERR and the devolved administrations for Wales and Northern Ireland: Managing radioactive waste safely: a framework for implementing geological disposal*. Mehefin 2008

<sup>5</sup> DECC, *Implementing Geological Disposal: A Framework for the long-term management of higher activity radioactive waste*. Gorffennaf 2014 <https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal>

mynegi barn ar bolisi gwaredu daearegol: ac ni wnaeth gefnogi na gwrthwynebu polisi Llywodraeth y DU ychwaith. O dan y polisi hwnnw, ers 2008, mae cymunedau yng Nghymru wedi gallu cysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynig lleoliad ar gyfer CGD. Byddai'r trafodaethau hynny wedi'u cynnal yng nghyd-destun rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel a byddent wedi bod yn gyson â'r trefniadau a oedd yn gymwys bryd hynny yn Lloegr a Gogledd Cymru.

- viii. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, ar yr amod bod y trefniadau newydd a fabwysiedir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer gweithio'n wirfoddol â chymunedau a allai gynig lleoliad, fel y'u nodir ym Mhapur Gwyn 2014, yn addas ar gyfer gweithio gyda chymunedau yng Nghymru, y byddai mabwysiadu'r un trefniadau yng Nghymru yn gyson â'i pholisi blaenorol. Ar yr amod bod y trefniadau arfaethedig ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn diogelu buddiannau cymunedau yng Nghymru a allai wirfoddoli i gynig lleoliad yn llawn ac yn diwallu anghenion Cymru gyfan nid yw Llywodraeth o'r farn y byddai'n werth ceisio creu strwythur gwahanol i Gymru.
- ix. Felly, yr opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru yw mabwysiadu'r un trefniadau ar gyfer lleoli CGD yng Nghymru a gweithio gyda chymunedau a allai gynig lleoliad sydd eisoes yn cael eu datblygu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar yr amod y bydd y trefniadau hynny yn diwallu anghenion Cymru ac yn diogelu buddiannau cymunedau yng Nghymru.
- x. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch y materion hyn ac mae'n ceisio sylwadau a barn drwy'r ymgynghoriad hwn ar fabwysiadu'r trefniadau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ynghyd â thystiolaeth arall cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y materion hyn.

### **Materion eraill sy'n cyfrannu at y polisi ar gyfer gwaredu daearegol**

- xi. Mae'r ddogfen polisi yn nodi materion eraill y bydd angen rhoi sylw iddynt er mwyn helpu i ddatblygu'r polisi ar gyfer gwaredu daearegol yn ogystal ag ystyried y prosesau lleoli a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu efo chymunedau gwirfoddoli posibl a chynnig lleoliad. Felly, bydd angen ystyried materion megis unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'r gyfundrefn gynllunio yng Nghymru ac asesiadau o effaith gwaredu daearegol ar faterion megis cynaliadwyedd, cydraddoldeb, y Gymraeg, iechyd, hawliau'r plentyn a phobl ifanc ac ardaloedd gweledig, ymhellach. Caiff gwaith ar y materion hyn ei ddatblygu ar wahân i'r ymgynghoriad hwn

mewn ffordd agored a thryloyw a hefyd drwy ymgynghori'n briodol â'r cyhoedd.

### **Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: *Implementing Geological Disposal* (Gorffennaf 2014)**

- xii. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys deunydd o Bapur Gwyn Llywodraeth y DU *Implementing Geological Disposal* (Gorffennaf 2014)<sup>6</sup> fel y gellir ystyried a ellid cymhwyso'r trefniadau ar gyfer lleoli CGD yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac, yn benodol, y trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddi i gynnig lleoliad, yng Nghymru. Bwriedir i'r deunydd hwn hwyluso sylwadau ac nid yw'r ffaith ei fod wedi'i gynnwys yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mabwysiadu'r trefniadau hynny yng Nghymru. Dim ond ar ôl iddi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a thystiolaeth arall y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch y materion hyn.

### **Sut mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro**

- xiii. Mae i'r ymgynghoriad hwn ddwy bennod:
- Mae Pennod 1 yn rhoi manylion bras am y prosesau lleoli, y camau gweithredu cychwynnol ac amserlen ddangosol ar gyfer datblygu CGD yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn trafod sut y gellid cymhwyso'r rhain yng Nghymru.
  - Mae Pennod 2 yn trafod y prosesau ar gyfer lleoli CGD ac ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cael eu datblygu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a sut y gellid eu cymhwyso yng Nghymru.
  - Mae Pennod 3

---

<sup>6</sup> DECC, *Implementing Geological Disposal: A Framework for the long-term management of higher activity radioactive waste*. Gorffennaf 2014 <https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal>

## Pennod 1: Datblygu gwaredu daearegol

1. 1 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull o leoli cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) sy'n seiliedig ar barodrwydd cymunedau lleol i gymryd rhan yn y broses. Bydd angen i gymunedau gael gwybodaeth a bod yn hyderus y bydd y broses ymgysylltu yn diogelu eu buddiannau cyn iddynt allu gwneud penderfyniadau hyddysg ar geisio dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.
1. 2 Yr opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru yw mabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau sy'n gyson â'r trefniadau sy'n cael eu mabwysiadu ar hyn o bryd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion Cymru a buddiannau cymunedau yng Nghymru sydd am ddechrau trafodaethau ynghylch cynnig lleoliad ar gyfer CGD, o bosibl.
1. 3 Felly, mae'r bennod hon yn trafod y camau gweithredu cychwynnol ac amserlenni posibl ar gyfer lleoli CGD ac ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cael eu datblygu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cafwyd y wybodaeth yn y bennod hon am y broses o leoli CGD a gweithio gyda chymuned neu gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad o'r Papur Gwyn *Implementing Geological Disposal* a gyhoeddwyd gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU ym mis Gorffennaf 2014 (Papur Gwyn 2014)<sup>7</sup>.
1. 4 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch y materion hyn a dim ond ar ôl iddi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth arall sydd ar gael iddi y bydd yn gwneud hynny. Os bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r trefniadau hyn ar gyfer Cymru, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir iddynt yn y dyfodol yn cael eu hystyried mewn ffordd agored a thryloyw a gan ymgynghori'n briodol â phobl Cymru.

---

<sup>7</sup> DECC, *Implementing Geological Disposal: A Framework for the long-term management of higher activity radioactive waste*. Gorffennaf 2014 (<https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal>)



## Camau gweithredu cychwynnol


1. 5 Nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau trafodaethau ffurfiol gyda chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad yn Lloegr cyn 2016. Yn y cyfamser bydd Llywodraeth y DU ac RWM Ltd (y datblygwr)<sup>8</sup> yn datblygu nifer o gamau gweithredu cychwynnol er mwyn darparu gwybodaeth glir sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn genedlaethol, er mwyn llywio unrhyw drafodaethau lleol..
1. 6 Er mwyn helpu cymunedau i ystyried a ddylent geisio dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, mae Llywodraeth y DU yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyn i unrhyw drafodaethau ffurfiol gael eu cynnal rhwng cymunedau a'r datblygwr, am faterion megis daeareg, effeithiau economaidd-gymdeithasol a buddsoddi yn y gymuned yn ogystal â gwybodaeth glir sy'n seiliedig ar wybodaeth am faterion technegol a'r broses ar gyfer gweithio gyda chymunedau.
1. 7 Bydd y broses o leoli CGD yn cymryd amser hir ac mae Llywodraeth y DU yn ceisio osgoi bod yn rhy ragnodol o ran pa drefniadau gweithdrefnol y dylid eu mabwysiadu. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU o'r farn ei bod yn werth mabwysiadu proses gredadwy sy'n cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu a chael cymorth arbenigwyr ym maes democratiaeth leol, gan ennyn hyder y cyhoedd yn y broses.

Dengys Diagram 1 sut mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r camau gweithredu cychwynnol fynd rhagddynt.

---

<sup>8</sup> Mae Annex 3 i ddatganiad polisi Llywodraeth Cymru yn rhestru cyfrifoldebau gwahanol sefydliadau am ddatblygu gwaredu daearegol. Mae hyn yn cynnwys Radioactive Waste Management Limited (RWM, y datblygwr). Mae RWM yn is-gwmni dan berchenogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear, sy'n gyfrifol am roi rhaglen gwaredu daearegol ddiogel a chynaliadwy sy'n dderbyniol i'r cyhoedd ar waith.

## Diagram 1: Camau gweithredu cychwynnol



### Noder:

1. Mae Llinell 1 yn cyfeirio at sgrinio daearegol cenedlaethol. Ers 2008 bu'n bosibl i gymuned yng Nghymru geisio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru (neu ei rhagflaenydd) ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Oherwydd hyn, a'i phenderfyniad i fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol wedi hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y dylai'r rhaglen sgrinio daearegol genedlaethol gwmpasu Cymru er mwyn sicrhau y gall cymunedau yng Nghymru gael gafael ar y wybodaeth hon i lywio eu hystyriaethau. Trafodir hyn ymhellach yn Atodiad 4 i ddogfen polisi Llywodraeth Cymru.
2. Llinell 2: Pe bai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r prosesau hyn i'w defnyddio yng Nghymru, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddai'n ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer gweithio gyda chymunedau cyn eu mabwysiadu.
3. Llinell 3: Mae Papur Gwyn 2014 yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau cynllunio ar gyfer lleoli CGD yn Lloegr. Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw'r prosesau cynllunio sy'n gymwys yn Lloegr ar gyfer lleoli CGD yn gymwys yng Nghymru. Bydd angen ystyried cynigion ar gyfer trefniadau cynllunio ar gyfer datblygu CGD yng Nghymru, o bosib, ar wahân ac ynghyd nghyd-destun y newidiadau a ragwelir os bydd y Bil Cynllunio yn cael Cydsyniad Brenhinol yn yr haf. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai trefniadau cynllunio ar wahân yng Nghymru atal CGD rhag cael ei adeiladu yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, bydd ystyried unrhyw CGD yng Nghymru o dan drefniadau cynllunio Cymreig yn sicrhau bod buddiannau Cymru gyfan yn ogystal â buddiannau cymunedau yng Nghymru a allai gynnig lleoliad yn cael eu hystyried yn briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygiadau yn y system gynllunio yng Nghymru fel y gallant fod yn gymwys i GUA mewn ffordd agored a gan ymgynghori'n briodol â'r cyhoedd. Câi unrhyw ddatblygiadau yn y system gynllunio eu cymhwyso hefyd yng nghyd-destun cyffredinol cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddull o leoli CGD sy'n seiliedig ar drafodaethau gyda chymunedau sy'n barod i ystyried gwirfoddoli i gynnig lleoliad. .

Mae'r blwch testun isod yn cynnwys ystyried sut y gall prosesau cynllunio yng Nghymru yn berthnasol i CGD.

Darperir y fframwaith polisi cynllunio cyffredinol yng Nghymru gan *Polisi Cynllunio Cymru/Polisi Cynllunio Mwynau Cymru*<sup>i</sup> ac amrywiol *Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio Mwynau*<sup>ii</sup>. Gyda'i gilydd maent yn nodi'r cyddestun ar gyfer llunio Cynlluniau Datblygu Lleol a gwneud penderfyniadau ynghylch pob math o gynigion ar gyfer datblygu.

Nid yw cyfeiriadau at y gyfundrefn gynllunio sydd i'w mabwysiadu yn Lloegr yn gymwys yng Nghymru a bydd angen ystyried ystyriaethau cynllunio sy'n effeithio ar leoliad posibl CGD yng Nghymru ar wahân. Mae'n well gwneud hyn yng nghydestun y newidiadau a ragwelir os bydd y Bil Cynllunio<sup>iii</sup> yn cael Cydsyniad Brenhinol yn yr haf. Mae amseriad yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â hyn y Bil Cynllunio yn golygu na ellir bod yn sicr sut y bydd y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru yn ymdrin â chyfleuster gwaredu daearegol. Fodd bynnag, ymgynghorir ymhellach ynghylch goblygiadau cynllunio'r datganiad polisi ar waredu gwastraff ymbelydrol. At hynny, ni fydd hyn yn newid safbwynt Llywodraeth Cymru mai dim ond ar sail partneriaeth wirfoddol gyda chymuned neu gymunedau parod y gellir gweithredu gwaredu daearegol.

Yn y ddogen ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol<sup>iv</sup> nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu sefydlu rôl newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru lle y byddent yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau cynllunio ar y ceisiadau cynllunio datganoledig mwyaf sylweddol a mwyaf cymhleth yn dechnegol. Mae'r Bil Cynllunio yn cynnig y dylid cyflwyno categori newydd o ddatblygiad ar gyfer y ceisiadau cynllunio mwyaf sylweddol ar gyfer seilwaith a elwir yn ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Er bod y Bil Cynllunio yn cyflwyno egwyddor categori newydd, caiff manylion pellach am ba ddatblygiadau y gellir eu diffinio fel rhai sydd o arwyddocâd cenedlaethol eu datblygu mewn is-ddeddfwriaeth a byddant yn destun ymgynghoriad ar wahân. Bydd fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ategol o hyd ond mae natur y broses ddiwygio sy'n mynd rhagddi yn golygu ei bod yn anochel y bydd angen rhoi sylw manwl i'r fframwaith hwn dros y misoedd i ddod er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i fod yn addas at y diben. Bydd unrhyw gynnwys polisi newydd sy'n ymwneud â gwaredu daearegol yn destun ymgynghoriad llawn.

- i. <http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
- ii. <http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- iii. <http://gov.wales/topics/planning/legislation/planningbill-old/?skip=1&lang=cy>
- iv. <http://gov.wales/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?skip=1&lang=cy>

Dengys Diagram 2 sut y rhagwelir ar hyn o bryd y gallai'r broses fynd rhagddi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae'n rhoi amserlenni dangosol.

**Diagram 2: Sut y gallai'r broses fynd rhagddi**



Noder: Cymerwyd y diagram hwn o Bapur Gwyn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Mae'n dangos y prosesau a allai gael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, ac a fyddai'n gyson â'r rhai a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, bydd mabwysiadu'r prosesau hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.

**1. 8 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall y camau gweithredu cychwynnol sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth y DU ac a nodir ym mharagraffau 2.5 i 2.7 uchod roi gwybodaeth a chymorth defnyddiol i gymunedau yng Nghymru. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cadarnhau y bydd y rhaglen sgrinio daearegol genedlaethol yn cwmpasu Cymru er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i gymunedau yng Nghymru. Gan ddibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a thystiolaeth arall mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r camau gweithredu cychwynnol sy'n cael eu rhoi ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, o'u haddasu'n briodol i'r gyfundrefn gynllunio ar wahân yng Nghymru, gael eu mabwysiadu yng Nghymru fel ffordd o weithio**

**gyda chymunedau a allai fod yn awyddus i ystyried dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.**

- 1.9 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cyfnodau hir o amser sy'n gysylltiedig â rhoi GUA ar waith, fel y nodir yn Niagram 2, yn briodol o gofio bod angen rhoi i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod yr hawl i dynnu'n ôl sydd wedi'i hymgorffori yn y broses yn rhoi sicrwydd i gymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.**

**Ystyrir y materion hyn yn fanylach ym Mhennod 2.**

## Pennod 2: Gweithio gyda chymunedau

2. 1 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol fel yr opsiwn hirdymor gorau ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA), a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff, er mwyn diogelu'r amgylchedd ac iechyd cenedlaethau'r dyfodol. Ers 2008 bu'n bosibl i gymunedau yng Nghymru geisio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol. Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod o'r farn mai dim ond mewn partneriaeth â chymunedau sy'n barod i ystyried cynnig lleoliad drwy drafodaethau agored a hyddysg y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru.
2. 2 Mae paragraff iii, yn y cyflwyniad yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond ar sail partneriaeth **wirfoddol â chymuned neu gymunedau sy'n barod i ddechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD)** y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru. Mae paragraff ix yn nodi mai'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda chymunedau yng Nghymru a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad yw mabwysiadu'r prosesau sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith o dan raglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar yr amod ei bod o'r farn bod y prosesau hyn yn addas i anghenion Cymru.
2. 3 Trafododd Pennod 1 y camau gweithredu cychwynnol sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU ar gyfer datblygu gwaredu daearegol. Mae'r bennod hon yn nodi'n fanylach y prosesau sy'n cael eu mabwysiadu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer lleoli cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) a gweithio gyda chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad. Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys sylwadau gan Lywodraeth Cymru ar y posibilrwydd y gellid cymhwyso'r prosesau hyn yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch y prosesau sydd i'w mabwysiadu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sylwadau ar y materion hyn drwy'r ymgynghoriad hwn a bydd yn ystyried yr ymatebion, ynghyd â thystiolaeth arall, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

### Gweithio gyda chymunedau yng Nghymru

2. 4 Mae Cymru yn wlad o gymunedau cryf a hunaniaethau lleol cryf. Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod sicrhau cymeradwyaeth cymunedau yn hanfodol i ddatblygu gwaredu daearegol yng Nghymru ac yn derbyn bod angen gweithio mewn ffyrdd sy'n rhoi sicrwydd i gymunedau ac

awdurdodau lleol yng Nghymru bod eu buddiannau yn cael eu cydnabod yn llawn a'u diogelu.

2. 5 Gan fod cymaint o wahanol hunaniaethau lleol yng Nghymru nid yw Llywodraeth Cymru am ragnodi'r hyn a fyddai'n gyfystyr â chymuned yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, yn y cyd-destun hwn y gallai "cymuned" gynnwys cyngor cymuned neu dref, ond na all fod yn gyfyngedig iddo. Fodd bynnag, o gofio'r rôl bwysig y mae cynghorau cymuned a thref yn ei chwarae yng Nghymru, mae'n ddymunol cynnwys cynghorau tref a chymuned yn yr ardal mewn unrhyw ddull gweithredu sy'n ceisio trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Er y gall fod amrywiaeth o gyrrff neu grwpiau lleol a allai fod yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn na fydd unrhyw drafodaethau o'r fath nas cefnogir gan yr awdurdod lleol (h.y. cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yn debygol o lwyddo. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan awdurdodau lleol rôl ganolog i'w chwarae o ran cefnogi cymunedau yn ystod unrhyw drafodaethau ac, felly, ei bod yn hanfodol ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol.
2. 6 Mae gweddill y bennod hon yn nodi'n fanylach y prosesau ymgysylltu a gynigir gan Lywodraeth y DU i'w defnyddio wrth weithio gyda chymunedau yn Lloegr ac a nodir ym mharagraff 1.X. Mae'r wybodaeth yn y bennod hon yn seiliedig ar ddeunydd ym Mhapur Gwyn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014<sup>9</sup>. Nid yw'r defnydd o wybodaeth o Bapur Gwyn 2014 yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mabwysiadu'r polisiau a'r prosesau a nodir ym Mhapur Gwyn 2014. Caiff penderfyniadau ynghylch y materion hyn eu gwneud ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a thystiolaeth arall.

Datblygir y drafodaeth hon mewn tri maes, sef: gweithio gyda chymunedau, rhoi gwybodaeth i gymunedau a chefnogi cymunedau.

## **Mesurau a gynigir gan Lywodraeth y DU a sylwadau Llywodraeth Cymru**

### ***Gweithio gyda Chymunedau***

2. 7 Ym Mhapur Gwyn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd dod o hyd i ddull gweithredu clir a hyblyg sy'n adlewyrchu natur hirdymor y

---

<sup>9</sup> DECC, *Implementing Geological Disposal: A Framework for the long-term management of higher activity radioactive waste*. Gorffennaf 2014 <https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal>

broses leoli ac yn cynrychioli grwpiau cymunedol ehangach, amrywiaeth y lleoliadau cymunedol a strwythurau awdurdodau lleol yn Lloegr, a bod pobl yn uniaethu ag ardaloedd, neu'n diffinio eu hunain yn erbyn ardaloedd lleol mewn ffyrdd gwahanol. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod angen gweithio gyda chymunedau mewn ffordd agored a thryloyw drwy gydol y broses o leoli safleoedd drwy wirfoddoli.

- **Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond drwy weithio'n hyblyg gyda chymunedau ac awdurdodau lleol y gellir datblygu gwaredu daearegol yng Nghymru ac y bydd yn rhaid i unrhyw drafodaethau gyda chymunedau adlewyrchu amrywiaeth cymunedau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir cymhwyso'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd uchod, o'i addasu'n briodol, yng Nghymru.**

2. 8 Ni fydd y datblygwr yn achub y blaen ar ganlyniad camau gweithredu cychwynnol, na thrafodaethau ffurfiol gyda chymunedau, drwy wneud neu gefnogi gwaith sy'n ystyried addasrwydd safleoedd penodol, na thrwy gyflawni neu ariannu unrhyw weithgareddau ymgysylltu sy'n ymwneud â gwaith datblygu mewn ardaloedd penodol.

- **Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw wedi nodi nac ystyried unrhyw safleoedd yng Nghymru lle y gellid, o bosibl, ddatblygu CGD. Mae'n cytuno y byddai hefyd yn amhriodol i'r datblygwr wneud gwaith mewn perthynas â safleoedd penodol cyn i gymuned geisio dechrau trafodaethau.**

### Cynrychiolaeth gymunedol

2. 9 Yn ei Phapur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2014 mae Llywodraeth y DU wedi nodi cyfres o gynigion ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth gymunedol briodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y trefniadau arfaethedig hyn ac mae o'r farn y gellir eu haddasu i ddiogelu buddiannau cymunedau yng Nghymru sy'n ceisio dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynig lleoliad ar gyfer CGD. Nodir cynigion Llywodraeth y DU isod ynghyd â sylwadau gan Lywodraeth Cymru.

2. 10 Ym Mhapur Gwyn 2014 mae Llywodraeth y DU yn cynnig, er mwyn i'r broses o sicrhau cynrychiolaeth gymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned fod yn gredadwy, yn ymarferol ac yn ddigon hyblyg i weithredu dros oes hir y prosiect, fod angen iddi gael ei datblygu dros amser, mewn ffordd agored a thryloyw.

2. 11 Mae Papur Gwyn 2014 yn nodi y dylid dwyn y datblygwr i gyfrif, gan fynnu ei fod yn rhoi i gymunedau'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac yn gwrando ar farn a phryderon mewn ffordd agored ac ymatebol ac yn



ymateb iddynt. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd angen sicrhau bod gan gyrrff cynrychioliadol - gan gynnwys pob lefel o lywodraeth leol - lais yn y broses hon. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU o'r farn na ddylai un haen o lywodraeth leol allu atal aelodau eraill o'r gymuned honno rhag cymryd rhan yn y broses.

- **Mae gan Gymru un haen o brif awdurdodau lleol, sef: cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD nas cefnogir gan yr awdurdod lleol yn annhebygol o lwyddo. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn ei bod yn bwysig rhoi gwybodaeth i sefydliadau a buddiannau cymunedol ehangach ac ymgysylltu â hwy yn ogystal ag awdurdodau lleol. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, os caiff prosesau sy'n debyg i'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon eu mabwysiadu yng Nghymru, y bydd angen i'r datblygwr fod yn barod i ystyried buddiannau penodol cymunedau yng Nghymru.**

2. 12 At hynny, mae Papur Gwyn 2014 yn nodi, er mwyn gwneud y broses leoli yn fwy hyblyg, y bydd cynrychiolwyr cymunedol yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau a chael gwybodaeth heb orfod gwneud ymrwymadau ffurfiol i barhau i gymryd rhan yn y broses. Bwriad Llywodraeth y DU yw y dylai cymunedau allu mynd ymlaen yn y broses ar y cyflymdra y maent yn teimlo'n gyfforddus gydag ef ac na ddylai mynediad at wybodaeth gael ei gyfyngu gan bwyntiau penderfynu a bennwyd ymlaen llaw.

- **Yn unol â'i dull gweithredu yn gynharach yn y papur ymgynghori hwn mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cymunedau yng Nghymru allu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn eu galluogi i chwarae rhan gyfartal mewn trafodaethau ac y dylai unrhyw drafodaethau fynd yn eu blaen ar gyflymdra sy'n adlewyrchu anghenion y cymunedau hynny.**

### **Grŵp cynrychiolaeth gymunedol**

2. 13 Ar ôl cyhoeddi Papur Gwyn 2014, mae Llywodraeth y DU wedi cynnull gweithgor cynrychiolaeth gymunedol. Bydd y grŵp hwn yn ateb yr her a'r materion cymhleth sydd wedi'u codi mewn perthynas â chynrychiolaeth gymunedol ac ymgysylltu ar safleoedd a allai gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r materion hyn am fod llwyddiant y broses o leoli CGD yn dibynnu ar gydweithredu â chymunedau.

2. 14 Mae gweithgareddau'r gweithgor cynrychiolaeth gymunedol yn cynnwys, ond ni fyddant yn gyfyngedig i:

- Ddatblygu dulliau o ddiffinio 'cymunedau' mewn ardaloedd sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am CGD ac opsiynau ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth gymunedol effeithiol.
  - Diffinio rolau a chyfrifoldebau cynrychiolwyr cymunedol a dealltwriaeth o'r ffordd y gallai'r rolau hyn ddatblygu ochr yn ochr â'r broses o leoli CGD.
  - Datblygu opsiynau ar gyfer sicrhau bod gan bob lefel o lywodraeth leol lais yn y broses o leoli CGD.
  - Sicrhau mwy o eglurder ynglŷn â phryd y gallai fod yn briodol ystyried cynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd a'r dull y gellid ei ddefnyddio i gynnal prawf o'r fath.
  - Datblygu opsiynau ar gyfer alldalu buddsoddiad cymunedol, gan gynnwys rheoli unrhyw becyn buddsoddi, asesu unrhyw geisiadau am arian a gallu cymunedau i ddylanwadu ar fuddsoddi yn eu hardaloedd daearyddol.
2. 15 Cadeirir y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, fel adran Llywodraeth ganolog y DU sy'n gyfrifol am bolisi gwaredu daearegol, ac mae ganddo aelodaeth graidd sy'n cynnwys y datblygwr, cynrychiolaeth llywodraeth leol, y byd academiaidd ac adrannau perthnasol y Llywodraeth. Caiff aelodau craidd y gweithgor eu cefnogi gan unigolion a sefydliadau ychwanegol sy'n briodol i'r pynciau sy'n cael eu hystyried.
2. 16 Bydd y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol yn casglu tystiolaeth, gan ddefnyddio ymatebion i ymgynghoriadau yn ogystal â gwybodaeth arall sy'n bodoli eisoes, er mwyn datblygu rhaglen waith. Caiff cynigion sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd eu datblygu rhwng 2014 a 2016, cyn ymgysylltu'n ffurfiol â chymunedau. Caiff y rhaglen waith ei chyflawni mewn ffordd agored, dryloyw a chynhwysol a fydd yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ac ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion os oes angen. Cyhoeddir cylch gorchwyl y grŵp hwn ar wefan Llywodraeth y DU maes o law.
2. 17 Bwriad Llywodraeth bresennol y DU yw y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r ymagwedd at gynrychiolaeth gymunedol gael ei diffinio'n glir erbyn 2016, pan ddylai camau gweithredu cychwynnol o ran yr ymarfer sgrinio daearegol cenedlaethol a'r ymarfer cynllunio defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Lloegr (gan gynnwys llunio Dogfen polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer ymgynghoriad) fod wedi'u cwblhau. Ar yr adeg honno, rhagwelir y bydd y broses o gynnal trafodaethau ffurfiol rhwng cymunedau â diddordeb a'r datblygwr yn dechrau.

2. 18 Yn ystod eu camau cynnar, bydd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar y datblygwr yn rhoi i gynrychiolwyr cymunedol unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn ystyried goblygiadau posibl CGD i'w hardal leol - gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i wybodaeth am ddaear leol, buddsoddiad cymunedol neu'r achos diogelwch ar gyfer CGD. Byddai angen i'r datblygwr wrando ar unrhyw farn a phryderon a fynegid gan gynrychiolwyr cymunedol ac ymateb iddynt. Mae gan y gymuned yr hawl i dynnu'n ôl o'r trafodaethau ffurfiol hyn gyda'r datblygwr unrhyw bryd.

- **Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, os bydd Llywodraeth Cymru am fabwysiadu ar gyfer Cymru drefniadau sy'n seiliedig ar y trefniadau arfaethedig a nodir uchod, bydd angen iddi sicrhau bod buddiannau Cymru a chymunedau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn gan y grŵp cynrychiolaeth gymunedol wrth iddo wneud ei waith. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ond, er mwyn llywio ei hystyriaeth o'r materion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i dderbyn statws arsylwr ar y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol.**
- **Yn dilyn yr ymgynghoriad, os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol mabwysiadu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned sy'n debyg i'r rhai sy'n cael eu cynnig ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, bydd yn ceisio aelodaeth lawn o'r grŵp cynrychiolaeth gymunedol a hefyd gynrychiolaeth ehangach o fuddiannau Cymru ar y grŵp. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar gynigion y grŵp cynrychiolaeth gymunedol cyn iddynt gael eu mabwysiadu ar gyfer Cymru.**
- **Nid yw cyfeiriadau at y gyfundrefn gynllunio sydd i'w mabwysiadu yn Lloegr yn gymwys yng Nghymru a chaiff ystyriaethau cynllunio sy'n effeithio ar y broses o leoli CGD yng Nghymru, o bosibl, eu hystyried ar wahân ac yng nghyd-destun y newidiadau a ragwelir os caiff y Bil Cynllunio Cydsyniad Brenhinol yn yr haf.**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion cymunedau yng Nghymru?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Os ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gwahanol o weithredu nodwch pa drefniadau amgen**

**a fyddai'n briodol a pha fanteision y byddent yn eu cynnig, yn eich barn chi.**

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol?**

**Rhowch eich rhesymau.**

### **Yr hawl i dynnu'n ôl a phrawf o gefnogaeth y cyhoedd**

2. 19 Mae cynigion ym Mhapur Gwyn 2014 Llywodraeth y DU [REF] yn nodi y bydd gan gymunedau'r hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau gyda'r datblygwr unrhyw bryd yn ystod y broses leoli sy'n arwain at y prawf o gefnogaeth y cyhoedd. Os bydd y gymuned yn tynnu'n ôl o drafodaethau gyda'r datblygwr cyn y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, daw'r broses leoli yn y gymuned honno i ben. Os bydd ymateb y gymuned i'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn un cadarnhaol, gall y datblygiad fynd ei flaen, gyda'r datblygwr yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer CGD a chaniatadau eraill i fwrw ymlaen â'r datblygiad gan y rheoleiddwyr amgylcheddol a rheoleiddwyr diogelwch niwclear. Os bydd ymateb y gymuned yn un negyddol, ni all y gwaith o ddatblygu CGD fynd rhagddo, a daw'r broses leoli o ran y safle sy'n cael ei ystyried i ben.
2. 20 Er mwyn sicrhau bod y broses o weithio gyda chymunedau yn un gadarn, ac y gall cynrychiolwyr cymunedol (yn ystod trafodaethau ffurfiol) ddwyn y datblygwr i gyfrif mewn perthynas â darparu gwybodaeth, ni wneir y penderfyniad terfynol ynghylch lleoli CGD mewn cymuned nes i brawf o farn y cyhoedd sy'n dangos bod y gymuned o blaid datblygu ar safle penodol gael ei gynnal.
2. 21 Unwaith y bydd digon o wybodaeth ar gael i lywio prawf o gefnogaeth y cyhoedd i leoli CGD ar safle penodol, cynhelir y prawf hwn. Caiff yr union ddulliau ac amseriadau ar gyfer y prawf hwn eu llywio gan argymhellion y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol, er bod Llywodraeth y DU yn rhagweld y câi ei gynnal ychydig cyn i gais am ganiatâd datblygu ar gyfer CGD ar safle penodol gael ei wneud (am mai dyma'r adeg y byddai'r swm mwyaf o wybodaeth, cyn adeiladu'r CGD, ar gael i'r gymuned). Ni wneir y penderfyniad terfynol i wneud cais am ganiatâd datblygu a chymeradwyaethau rheoleiddiol ar gyfer CGD oni cheir prawf cadarnhaol o gefnogaeth y cyhoedd i CGD ar y safle dan sylw.

2. 22 Gall y datblygwr, a fydd yn gyfrifol am ddiogelwch, diogelu'r amgylchedd a gweithredu'r CGD mewn ffordd gost-effeithiol drwy gydol oes y rhaglen, ddod â'r broses leoli mewn cymuned (neu gymunedau) i ben ar unrhyw adeg, er mwyn ystyried opsiynau amgen mewn manau eraill.
2. 23 Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y dull hwn o sicrhau cynrychiolaeth gymunedol yn galluogi cymunedau i gael mwy o wybodaeth am y broses o leoli CGD yn eu hardal am ddim, gyda'r sicrwydd na fydd y gwaith o ddatblygu CGD yn eu hardal yn mynd rhagddo os nad yw'n cael ei gefnogi gan y cyhoedd.
- **Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn fesurau hanfodol i ddiogelu cymunedau sy'n ceisio dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.**
  - **Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y dylid cynnal y prawf cyhoeddus o gefnogaeth, fel y cynigiwyd uchod, pan fydd cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael i alluogi cymuned a allai gynnig lleoliad i wneud penderfyniad hyddysg.**
  - **Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwaith ar y materion hyn (megis sut y gellir arfer yr hawl i dynnu'n ôl a phwy all wneud hynny) yn mynd rhagddo.**
  - **Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dilysrwydd y prawf cyhoeddus o gefnogaeth yn rhan hanfodol o'r broses leoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ar gyfer yr hyn a allai fod yn gyfystyr â phrawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned i CGD yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion hyn ar gyfer y prawf cyhoeddus o gefnogaeth ynghyd â chanlyniad gwaith y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol fel rhan o becyn terfynol o gynigion ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad. Bydd yn awyddus i drafod y cynigion hyn â rhanddeiliaid yng Nghymru ac ymgynghori ymhellach yn eu cylch cyn iddynt gael eu mabwysiadu yng Nghymru.**
  - **Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen datrys y materion hyn ac ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch mewn pryd i lywio trafodaethau ffurfiol gyda chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad.**

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylai fod gan gymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau y gellir ei harfer unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ar ôl cynnal trafodaethau a rhoi gwybodaeth i gymuned a allai gynnig lleoliad a chyn i'r gwaith o adeiladu CGD ddechrau?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 5: Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ynglŷn â sut y dylai'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y cyhoedd fod wedi'i strwythuro yng Nghymru.**

### ***Rhoi gwybodaeth i gymunedau***

2. 24 Mae paragraff 2.1 uchod yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond mewn partneriaeth â chymunedau sy'n barod i ystyried cynnig lleoliad drwy drafodaethau agored a hyddysg y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen i gymunedau allu cael gafael ar wybodaeth briodol er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylent gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y bydd angen i gymunedau allu cael cyngor arbenigol allanol yn ystod trafodaethau fel y gallant fod yn hyderus bod eu buddiannau yn cael eu diogelu.

### **Rhaglen sgrinio daearegol genedlaethol**

2. 25 Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi rhaglen sgrinio daearegol genedlaethol ar waith, gyda chanllawiau sgrinio lefel uchel.
- **O dan bolisi blaenorol Llywodraeth Cymru a nodwyd ym Mhapur Gwyn 2008, mae cymunedau yng Nghymru eisoes yn gallu cysylltu â Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ddechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cymunedau yng Nghymru allu gael gafael ar wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylent geisio dechrau trafodaethau. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y rhaglen sgrinio daearegol genedlaethol yn cwmpasu Cymru. Trafodir hyn yn Atodiad 4 i ddogfen polisi Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu GUA a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff.**
2. 26 Yn ystod y cyfnod cyn i drafodaethau ffurfiol ddechrau, bydd y datblygwr hefyd yn cynnal gweithgareddau er mwyn esbonio gwyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol a materion cysylltiedig, yng nghyd-destun

polisi Llywodraeth y DU, i'r cyhoedd. Nod y gweithgareddau hyn fydd rhannu gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth er mwyn hwyluso trafodaethau ffurfiol gyda chymunedau yn y dyfodol ac, yn y tymor hwy, helpu i weithredu gwaredu daearegol yn llwyddiannus.

- **Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cymunedau yng Nghymru allu cael gafael ar y wybodaeth hon am wyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol.**

## **Cael barn arbenigwyr annibynnol**

2. 27 Yn Lloegr Llywodraeth y DU a'r datblygwr fydd y pwyntiau cyswllt cyntaf i'r rhai sydd â chwestiynau am y broses o leoli CGD. Mae'r datblygwr, sef Radioactive Waste Management Limited (RWM), eisoes yn cynnal cofrestr o faterion rhyngweithiol<sup>10</sup> sy'n cynnig cyfle i randdeiliaid fynegi eu barn ar faterion technegol i'r datblygwr, ac i'r datblygwr ymateb iddynt, fel rhan o ymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw.
2. 28 Yn ogystal â hyn, bydd yn bwysig bod gan bob parti sy'n cymryd rhan yn y broses leoli hyder yng nghywirdeb gwybodaeth wyddonol a ddarperir i gymunedau, yn arbennig os gwneir datganiadau croes gan bartïon gwahanol.
2. 29 Byddai system lle y gallai datganiadau technegol allweddol (a wneir gan gyrff megis Llywodraeth y DU, y datblygwr neu sefydliadau ymgyrchu yn ystod y broses leoli) gael eu hadolygu'n annibynnol gan drydydd parti yn helpu i roi'r hyder hwn.
2. 30 Felly, bydd Llywodraeth y DU yn sefydlu system i alluogi cymunedau, y datblygwr a'r Llywodraeth ei hun gael gafael ar farn annibynnol trydydd parti ar faterion sy'n cael eu herio yn ystod y broses o leoli CGD. Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth y DU wedi gweithio gyda Chymdeithasau Dysgedig perthnasol yn ystod y cyfnod ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn 2014 er mwyn datblygu manylion system a allai alluogi eu haelodau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gyda'i gilydd mae gan y sefydliadau gyfoeth o brofiad ac, felly, maent yn dra chymwys i farnu pwy ymhlith eu haelodau sydd yn y sefyllfa orau i roi barn arbenigol annibynnol.
2. 31 Ni fydd aelodau'r Cymdeithasau Dysgedig yn gwneud penderfyniadau, yn darparu argymhellion nac yn rhoi cyngor. Yn hytrach, gallant gynnig barn

---

<sup>10</sup> Mae Cofrestr Materion Cyfleusterau Gwaredu Daearegol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn gronfa ddata chwiliadwy ar-lein y gellir cael mynediad iddi drwy wefan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. <http://bit.ly/1j3n0Ur>

arbenigol annibynnol ar y pwnc y gall y sawl sy'n gofyn amdani ei defnyddio i lywio ei brosesau neu ei ystyriaethau ei hun. Gan ddibynnu ar y pwnc, gellir galw ar aelodau'r Cymdeithasau Dysgedig yn unigol neu fel rhan o banel er mwyn cynnig barn gyfunol.

2. 32 Bydd y system ar gael o'r adeg y bydd Llywodraeth y DU a'r datblygwr yn dechrau trafodaethau ffurfiol gyda chymunedau yn 2016.

- **Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau allu gwneud hynny ar sail hyddysg. Yn unol â'i phenderfyniad i ymestyn y rhaglen sgrinio daearegol i gynnwys Cymru, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cymunedau yng Nghymru hefyd allu cael gafael ar gyngor arbenigol pellach pan fyddant yn ystyried bod ei angen ac er mwyn ateb cwestiynau penodol gan gynnwys y rhai a godir gan drydydd partion. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ddarpariaeth y mae Llywodraeth y DU yn ei rhoi ar waith er mwyn galluogi cymunedau eu hunain i gael cyngor arbenigol annibynnol ac yn cynnig y dylai'r ffynonellau hyn o wybodaeth fod ar gael i gymunedau yng Nghymru.**

**Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, a ddylid rhoi cyfle i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad weld gwybodaeth megis y sgrinio daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, a ddylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD allu ceisio cyngor arbenigol fel endidau annibynnol yn ystod y trafodaethau hynny pan fyddant yn ystyried bod ei angen?**

**Rhowch eich rhesymau.**

### **Rhoi gwybod am y stocrestr o wastraff i'w waredu**

2. 33 Mae'r gwastraff sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei waredu mewn CGD, sef y stocrestr o wastraff i'w waredu, o'r pwys pennaf i drafodaethau gyda chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad ac yn y gorffennol mae pryder wedi'i fynegi ynghylch yr ansicrwydd a allai godi ynglŷn â faint o wastraff a allai gael ei anfon i CGD ac, yn benodol, oblygiadau gwastraff o raglen o orsafoedd ynni niwclear newydd.



2. 34 Felly, mae gwybodaeth am y stocrestr o wastraff i'w waredu o bwys arbennig i gymunedau sy'n ystyried dechrau trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a hefyd i gymunedau yn ystod trafodaethau. Mae paragraff 2.15 yn Atodiad 1 o'r ddogfen polisi yn nodi bod y stocrestr o wastraff i'w waredu yn cynnwys categorïau gwahanol o wastraff a deunydd. Mae sicrwydd rhesymol, yn achos rhan helaeth o'r stocrestr, na fydd y rhestr hon yn newid yn sylweddol. Mae'r rhestr yn rhoi'r darlun mwyaf cyflawn posibl o'r stocrestr o wastraff i'w waredu ac fe'i cyflwynir fel y cyfryw er mwyn rhoi hyder i gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD na fydd yn ehangu'n sylweddol dros amser.
2. 35 Ym Mhapur Gwyn 2014 mae Llywodraeth y DU wedi nodi, pe bai'r rhestr o wastraff a mathau o ddeunyddiau i'w gwaredu'n ddaearegol yn newid yn sylweddol – er enghraifft, pe bai math arall o wastraff y byddai Llywodraeth y DU am ei waredu mewn CGD – y byddai angen trafod y newid hwn a chytuno arno gyda'r gymuned a oedd yn ystyried cynnig lleoliad (neu a oedd wedi cytuno i gynnig lleoliad) ar gyfer CGD. Byddai angen cytuno ar broses ar gyfer cytuno ar newidiadau sylweddol i'r stocrestr o wastraff i'w waredu, gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru pellach neu unrhyw arian buddsoddi cymunedol ychwanegol, cyn i gymuned ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD.
2. 36 ran gwastraff o raglen adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd y DU, mae Llywodraeth y DU wedi nodi, yn y stocrestr o wastraff i'w waredu, swm penodol o weddillion tanwydd a GLG o raglen adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd sydd i'w gwmpasu gan y broses o leoli CGD y bydd unrhyw gymuned â diddordeb yn dechrau cymryd rhan ynddi. Bwriedir i hyn sicrhau bod cymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn cael darlun mor gyflawn â phosibl o'r gwastraff y bwriedir ei anfon i CGD yn eu hardal leol, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad cwbl hyddysg ynghylch a ddylent gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster. Uchelgais ddatganedig gyfredol y diwydiant ar gyfer datblygiadau niwclear newydd yw 16 GigaWat trydanol. Nid targed a bennwyd gan y Llywodraeth yw hon a hoffai Llywodraeth y DU weld y diwydiant yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer datblygiadau pellach yn y dyfodol. Pe bai hynny'n digwydd, byddai angen i Lywodraeth y DU drafod mater gwaredu'r gweddillion tanwydd a GLG ychwanegol hyn ag unrhyw gymunedau sy'n cymryd rhan yn broses o leoli CGD a chytuno ar sut i'w gwaredu, gyda'r bwriad naill ai o ehangu unrhyw gynllun i ddatblygu cyfleuster sy'n bodoli eisoes neu chwilio am gyfleusterau amgen.
- **Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad i sicrhau bod cymunedau a allai gynnig lleoliad yn cael cymaint o wybodaeth am y**

stocrestr â phosibl er mwyn llywio trafodaethau a rhoi sicrwydd i gymunedau ynghylch eu hymrwymiad posibl.

- Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU y caiff unrhyw newid i'r math o wastraff sy'n cael ei ystyried neu'r symiau a nodir ar hyn o bryd yn y stocrestr o wastraff i'w waredu mewn CGD ei drafod ac y cytunir arno gyda'r gymuned a allai gynnig lleoliad. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad, os na chytunir ar newidiadau i'r stocrestr, na chaiff y gwastraff ychwanegol ei anfon i'r CGD sy'n cael ei drafod.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylid nodi'r stocrestr o wastraff i'w waredu cyn cynnal trafodaethau ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau cyn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 10: Os nad ydych yn cytuno y dylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar y stocrestr o wastraff i'w waredu pa opsiwn gwaredu fyddai'n well gennych ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?**

**Rhowch eich rhesymau.**

### ***Cefnogi cymunedau***

2. 37 Ym Mhapur Gwyn 2014 mae Llywodraeth y DU wedi nodi, ar ôl i drafodaethau ffurfiol ddechrau, mai'r datblygwr fydd yn gyfrifol am dalu'r costau yr oedd angen mynd iddynt er mwyn cynnwys cynrychiolaeth o'r gymuned yn y broses leoli. Bydd angen datgelu unrhyw weithgaredd y gellir ei ariannu yn gyhoeddus.
2. 38 Drwy gydol y cyfnod o drafodaethau ffurfiol rhwng cynrychiolwyr y gymunedol a'r datblygwr, byddai ymgysylltu ehangach â'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill â diddordeb hefyd, a thelid cost y gweithgarwch ymgysylltu hwnnw gan y datblygwr.

2. 39 Bydd adeiladu a gweithredu CGD yn brosiect gwerth biliynau o bunnau a fydd yn darparu cyflogaeth sgil uchel i gannoedd o bobl dros sawl degawd. Bydd CGD yn creu 570 o swyddi uniongyrchol dros oes y prosiect, ar gyfartaledd, gyda nifer y gweithwyr yn cynyddu i fwy na 1,000 yn ystod y cam adeiladu ac ar ddechrau'r cam gweithredu<sup>11</sup>. Bydd CGD yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol a'r fframwaith economaidd-gymdeithasol ehangach. Hefyd, mae'n debygol y bydd sgil-fanteision i ddiwydiant, buddsoddiadau mewn seilwaith, manteision i addysg leol neu adnoddau academaidd, ac effeithiau cadarnhaol ar ddiwydiannau gwasanaethau lleol sy'n cefnogi'r cyfleuster a'i weithlu. Mae hefyd yn debygol o olygu buddsoddiadau mawr mewn cyfleusterau trafniadaeth leol a seilwaith arall, a fyddai'n aros ar ôl i'r cyfleuster gael ei gau.
2. 40 Felly, mae cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn debygol o ddod â manteision economaidd sylweddol i gymuned o ran cyflogaeth a seilwaith, a fydd yn parhau dros gyfnod hir yn enwedig am fod disgwyl i CGD fod yn weithredol am fwy na chan mlynedd.
2. 41 At hynny, ac yn unol â phrosiectau seilwaith mawr eraill, mae angen cydnabod yr effeithiau lleol a gaiff adeiladu a gweithredu prosiect seilwaith mawr ar gymuned sy'n darparu gwasanaeth mor hanfodol i'r wlad. Mae hyn yn arbennig o bwysig am ei bod yn bosibl na fwriedir cau'r cyfleuster yn derfynol am o leiaf 100 mlynedd, sy'n golygu bod datblygu a gweithredu CGD yn fater sy'n pontio cenedlaethau.
2. 42 Felly, ym Mhapur Gwyn 2014 mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn darparu buddsoddiad ychwanegol i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad ar gyfer CGD, er mwyn helpu i sicrhau cymaint o fuddiannau economaidd sylweddol â phosibl sy'n rhan annatod o dderbyn prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Gallai'r rhain gynnwys buddsoddi mwy mewn addysg a sgiliau lleol, gwella seilwaith trefniadaeth a gwella cyfleusterau hamdden. Caiff y defnydd a wneir o'r buddsoddiad ei deilwra i ddiwallu anghenion ardaloedd penodol a'i reoli'n lleol er mwyn sicrhau manteision hirdymor, ystyrlon sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwaddol economaidd a chymdeithasol cadarnhaol sy'n deillio o'r datblygiad. Felly, mae'r buddsoddiad hwn yn ychwanegol at y buddsoddiad a'r swyddi a ddenir i ardal o ganlyniad i brosiect seilwaith mawr o'r fath. Mae hefyd yn ychwanegol at unrhyw gytundebau rhwng y datblygwr a chymunedau i liniaru effeithiau pan fydd y cyfleuster yn cael ei adeiladu ac at arian a ddarparwyd i'w gwneud yn haws i'r gymuned gymryd rhan yn y broses leoli.

---

<sup>11</sup> <http://bit.ly/1mbMsgD>

2. 43 Mae Papur Gwyn 2014 yn nodi y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn un sylweddol sy'n debyg i brosiectau CGD rhyngwladol eraill, ac y bydd yn gallu sicrhau manteision sy'n pontio cenedlaethau ac sy'n benodol i'r cymunedau sy'n cynnig lleoliad ar gyfer CGD.
2. 44 Ym Mhapur Gwyn 2014 mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd hefyd yn sicrhau bod buddsoddiad ar gael ar gam cynnar yn y broses leoli ar gyfer CGD, er mwyn helpu i ddatblygu cymunedau sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses er mwyn dod o hyd i safle (neu safleoedd). Sicrheir bod buddsoddiad cymunedol gwerth hyd at filiwn o bunnau (£1m) y flwyddyn fesul cymuned sy'n cymryd rhan yn broses ar gael ar gamau cynnar y broses leoli. Byddai'r swm hwn o fuddsoddiad cymunedol yn cynyddu i ddwy filiwn a hanner o bunnau (£2.5m) y flwyddyn ar gyfer y gymuned (neu gymunedau) sy'n symud ymlaen i gam yr ymchwiliadau tyllau turio ymwithiol a gynhelir er mwyn asesu safle (neu safleoedd) a allai fod yn addas. Byddai'r arian hwn ond yn parhau gyhyd ag y mae'r gymuned yn parhau i gymryd rhan yn y broses.
2. 45 Ni ddylai'r buddsoddiad cynnar hwn wneud iawn am ddiffygion mewn cyllidebau lleol, mae'n rhaid ei wario yn unol ag arfer gorau o ran sicrhau gwerth am arian, mae'n rhaid iddo sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol a / neu economaidd lleol mesuradwy a bod yn amlwg yn ychwanegol at arian ymgysylltu neu unrhyw arian o dan adran 106 a ddarparwyd fel rhan o'r mesurau lliniaru ar gyfer gwaith ymchwilio. Byddai'r gymuned yn cadw'r buddsoddiad hwn hyd yn oed pe na bai'r gwaith o ddatblygu CGD yn yr ardal dan sylw yn mynd yn ei flaen.
2. 46 Bydd y gweithgor cynrychiolaeth gymunedol hefyd yn datblygu argymhellion ar fanylion y strwythurau ar gyfer all dalu buddsoddiad cymunedol – y dulliau y dylid eu defnyddio i sianelu arian i gymuned, pwy ddylai ddal yr arian buddsoddi a ddarperir gan Lywodraeth y DU, ac enghreifftiau o'r mathau o brosiectau y gallai eu cefnogi.
2. 47 Maes o law, wrth i gymunedau ymuno â'r broses, bydd y datblygwr yn gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr y gymuned er mwyn datblygu cynllun sy'n benodol i'r ardal leol ac sy'n nodi'r ffordd orau o fuddsoddi arian ychwanegol yn eu hardal.
- **Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen cymorth ar gymunedau er mwyn iddynt allu gweithredu fel partneriaid cydradd mewn unrhyw drafodaethau ac mae'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ad-dalu i gymunedau'r costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn trafodaethau a chostau ymestyn gweithgarwch ymgysylltu i gynnwys y gymuned ehangach.**

- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno y bydd cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn ymrwymiad sylweddol gan gymuned ar ran y DU cyfan. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu buddsoddiad cymunedol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cynnig lleoliad ar gyfer CGD ac ar ôl hynny os caiff CGD ei ddatblygu mewn cymuned.
- Ariennir y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel, gan gynnwys yr elfen gwaredu daearegol ohoni, gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd y bydd unrhyw arian, o ran costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn trafodaethau a buddsoddiad cymunedol cyn ac ar ôl unrhyw benderfyniad terfynol gan gymuned i gynnig lleoliad ar gyfer CGD, ar gael i gymunedau yng Nghymru a allai gynnig lleoliad ar yr un sail ag y mae ar gael i gymunedau yn Lloegr.

**Cwestiwn 11:** A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau er mwyn talu cost cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau.

**Cwestiwn 12:** A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad cymunedol pellach os bydd cymuned yn ymrwmo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?

Rhowch eich rhesymau

## **Pennod 3: Y camau nesaf**

Mae'r bennod hon yn trafod y camau nesaf i Lywodraeth Cymru yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

### **Polisi Llywodraeth Cymru ar waredu daearegol**

- 3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol fel yr opsiwn rheoli hirdymor ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) [REF]. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai dim ond os bydd cymunedau a allai gynnig lleoliad yn gwirfoddoli i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru. Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio ymatebion ynghylch cynigion ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad a rhoi polisi gwaredu daearegol ar waith.
- 3.2 Er mwyn datblygu'r polisi ar gyfer gwaredu GUA yn ddaearegol bydd Llywodraeth Cymru bellach yn cytuno ar statws arsylwr ar y Gweithgor Cynrychiolaeth Gymunedol gydag Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) y DU. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, os caiff yr opsiynau a ffefrir gan Lywodraeth Cymru fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad hwn eu cadarnhau, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio aelodaeth lawn ar y Gweithgor Cynrychiolaeth Gymunedol a chynrychiolaeth ehangach o fuddiannau Cymru ar y gweithgor.
- 3.3 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu gwaith ar Arfarniad o Gynaliadwyedd gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r gwaith hwn mewn ffordd dryloyw a bydd yn ymgynghori ar y materion hyn, fel y bo'n briodol.
- 3.4 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i chwarae rhan weithredol yn rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel y DU o ran elfennau eraill o'r rhaglen e.e. storio GUA yn ddiogel am gyfnod interim a gwaith ymchwil parhaus er mwyn sicrhau diogelwch hirdymor gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA), y caiff fframwaith sy'n briodol i anghenion Cymru ei weithredu ac y caiff buddiannau Cymru eu hystyried wrth i bolisiau gael eu datblygu yn y maes hwn.

## Ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn

- 3.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn gan nodi opsiynau a ffeirir er mwyn mabwysiadu prosesau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynneg lleoliad a rhoi prosesau ar waith ar gyfer gwaredu GUA yn ddaearegol sy'n cyd-fynd â'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu ar hyn o bryd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch y mater hwn a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ynghyd â'r dystiolaeth arall cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.
- 3.6 Yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynneg lleoliad, dim ond pe bai'n bodloni gofynion llym y rheoleiddwyr (sef y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru), yn arbennig y gofyniad i ddatblygu achos diogelwch priodol, y gellid datblygu CGD yng Nghymru.
- 3.7 Os bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu gwaredu daearegol bydd yn ymgynghori ar bolisiâu ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai fod yn barod i gynneg lleoliad a threfniadau eraill ar gyfer lleoli CGD â phobl Cymru cyn iddynt gael eu llunio'n derfynol.
- 3.8 Mater datganoledig yw gwaredu gwastraff ymbelydrol a byddai unrhyw benderfyniadau cynllunio ar gyfer CGD yng Nghymru yn cael eu gwneud drwy'r system gynllunio yng Nghymru. Os bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r opsiynau a ffeirir ganddi bydd yn ystyried beth fydd y goblygiadau i'r system gynllunio yng Nghymru a bydd yn sicrhau bod dulliau cynllunio priodol yn cael eu rhoi ar waith, ac yr ymgynghorir arnynt, fel y gellir gwneud unrhyw benderfyniadau yn agored a thryloyw.
- 3.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag unrhyw bolisi newydd ar waredu GUA a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff ar y sail gadarn o sicrhau diogelwch hirdymor o ran iechyd pobl a'r amgylchedd ac o weithio mewn partneriaeth â chymunedau a allai fod yn barod i gynneg lleoliad.

## **CWESTIYNAU**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu prosesau lleoli a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad sy'n cyd-fynd â'r rhai a fabwysiadwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon ar yr amod eu bod yn gyson ag anghenion cymunedau yng Nghymru?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Os ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gwahanol o weithredu nodwch pa drefniadau amgen a fyddai'n briodol a pha fanteision y byddent yn eu cynnig, yn eich barn chi.**

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno mai dim ond gyda chymunedau sy'n gwirfoddoli ac sy'n barod i ddechrau trafodaethau, heb wneud ymrwymiad ymlaen llaw, ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylai fod gan gymunedau hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau y gellir ei harfer unrhyw bryd cyn cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid cynnal prawf cyhoeddus o gefnogaeth y gymuned ar ôl cynnal trafodaethau a rhoi**



**gwybodaeth i gymuned a allai gynnig lleoliad a chyn i'r gwaith o adeiladu CGD ddechrau?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 5: Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cynigion adeiladol ynglŷn â sut y dylai'r prawf cyhoeddus o gefnogaeth y cyhoedd fod wedi'i strwythuro yng Nghymru.**

**Cwestiwn 6. Yn eich barn chi, a ddylid rhoi cyfle i gymunedau a allai wirfoddoli i gynnig lleoliad weld gwybodaeth megis yr arolwg daearegol cenedlaethol a gwybodaeth am wyddoniaeth a pheirianeg gwaredu daearegol cyn iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 7. Yn eich barn chi, a ddylai cymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD allu ceisio cyngor arbenigol fel endidau annibynnol yn ystod y trafodaethau hynny pan fyddant yn ystyried bod ei angen?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno y dylid nodi'r stocrestr o wastraff i'w waredu cyn cynnal trafodaethau ac y dylai'r gymuned gytuno ar unrhyw newidiadau cyn ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 9. A ydych yn cytuno y dylai'r stocrestr o wastraff i'w waredu cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 10. Os nad ydych yn cytuno y dylid cynnwys gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar y stocrestr o wastraff i'w waredu pa opsiwn gwaredu fyddai'n well gennyh ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 11. A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth roi arian i gymunedau er mwyn talu cost cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD?**

**Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 12. A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD a buddsoddiad cymunedol pellach os bydd cymuned yn ymrwmo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD?**

**Rhowch eich rhesymau.**

## Sut i ymateb

Bydd Llywodraeth Cymru yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Dylech gyflwyno eich sylwadau erbyn 18 Awst 2015 mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost:

[RPPmailbox@cymru.gsi.gov.uk](mailto:RPPmailbox@cymru.gsi.gov.uk)

Post:

Ymgynghoriad ar wastraff ymbelydrol  
Y Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Gwybodaeth ychwanegol

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch:

029 2082 3235

---

**Ffurflen Ymateb  
i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol)

e-bost/ rhif ffôn

Eich cyfeiriad

Ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:



---